# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y Y BWRDD PENSIWN LLEOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 6, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 14 RHAGFYR 2016 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd A Lockyer (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Cynrychiolwyr Cyflogwyr:**
J Andrew - Cyfarwyddwr Cyllid Cartrefi CNPT
Y Cynghorydd J E C Harris - Dinas a Sir Abertawe

**Cynrychiolwyr Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol:**
A Chaves
I Guy

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol |
| Lynne Miller | Rheolwr Pensiynau |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):
Aelodau Cyfetholedig(wyr): A Thomas

16 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

J Andrew – Personol – yr agenda yn ei chyfanrwydd - Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

I Guy – Personol – agenda yn ei chyfanrwydd - Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Holodd aelodau'r bwrdd ynghylch datgan buddiannau a ddatganwyd yn flaenorol.

17 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** llofnodi a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol Arbennig a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2016 a chyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2016 fel cofnodion cywir.

18 **ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015/16.**

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2015/16 "er gwybodaeth".

Roedd Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2015/16 yn Atodiad 1.

Amlygwyd bod yr adroddiad hefyd yn cynnwys gweithgarwch y Bwrdd Pensiwn Lleol.

Trafododd y bwrdd y canlynol: -

- Gofyniad i'r bwrdd gael mynediad llawn i bapurau Pwyllgor y Gronfa Bensiwn er mwyn cynorthwyo'r pwyllgor yn effeithiol;
- Gofyniad i aelodau'r bwrdd gael caniatâd i fynd i gyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn, gan gynnwys aros pan oedd eitemau wedi'u gwahardd yn cael eu hystyried;
- Posibilrwydd bod y bwrdd yn cwrdd yn ffurfiol â Phwyllgor y Gronfa Bensiwn er mwyn trafod rôl y bwrdd wrth fynd ymlaen a chaniatáu'r bwrdd i'r weithredu hyd eithaf ei allu;
- Y bwrdd yn derbyn mwy o wybodaeth/cyflwyniadau ynglŷn â buddsoddiad perfformiad.

19 **POLISI TOR-AMODAU.**

Adroddodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol am y gweithdrefnau i'w dilyn wrth adrodd am doriadau i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

Nodwyd y gall toriadau ddigwydd wrth ymdrin perthynas ag amrywiaeth helaeth o'r tasgau sydd fel arfer yn gysylltiedig â swyddogaeth weinyddol cynllun pensiwn megis cadw cofnodion, rheoliadau mewnol, cyfrifo budd-daliadau a gwneud buddsoddiadau neu benderfyniadau sy'n ymwneud â buddsoddi. Nododd yr adroddiad y gweithdrefnau i'w mabwysiadu gan Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a reolir gan Ddinas a Sir Abertawe, o ran adrodd am doriadau cyfreithiol i'r Rholeiddiwr Pensiynau.

Rhoddwyd manylion ynglŷn â gofynion cyfreithiol, gweithdrefn adrodd am doriadau, eglurhad ynglŷn â phryd amheuwyd toriad a'r broses ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Rheoleiddiwr.

Ychwanegwyd y caiff adroddiad chwarterol ei gyflwyno i'r Bwrdd Pensiwn a Phwyllgor y Gronfa Bensiwn yn nodi'r canlynol:

- yr holl doriadau, gan gynnwys y rheiny i'r Rheoleiddiwr Pensiynau a'r rheiny na roddwyd gwybod amdanynt, gyda'r dyddiadau perthnasol;
- mewn perthynas â phob toriad, manylion pa gamau gweithredu a gymerwyd a chanlyniad unrhyw gamau gweithredu (lle nad ydynt yn gyfrinachol);
- unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol er mwyn atal y toriad dan sylw rhag digwydd eto.

Trafododd y bwrdd y canlynol: -

- Sut y byddai toriadau yn cael eu hadrodd i bob barti rhestredig;
- Argaeledd y polisi i aelodau'r cynllun;
- Gofynion y bwrdd mewn achos o doriad;
- Cyfnodau adrodd i'r bwrdd yn y dyfodol;
- Diwygiadau gofynnol o ran dilyniant ym mharagraffau 3.3 a 3.4. ac i adrodd am doriadau i'r bwrdd o leiaf dwywaith y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD:** -

1) Cymeradwyo'r Polisi Toriadau yn amodol ar y diwygiadau uchod;
2) Dosbarthu'r polisi diwygiedig i'r bwrdd.

20 **GWEINYDDIAETH Y CYNLLUN A PHROSES DATRYS ANGHYDFODAU MEWNOL.**

Cyflwynodd Rheolwr y Gronfa Bensiwn adroddiad "er gwybodaeth" ar brosesau a gweithdrefnau gweinyddu'r cynllun a datrys problemau.

Nododd yr adroddiad fanylion am weinyddu pensiynau yng Nghronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe, sut cynhelir cyfraniadau, sut mae'r gronfa'n rhoi gwybodaeth a sut caiff problemau eu datrys. Roedd Atodiad 1 yn nodi'r swyddogaethau gweithrediadol a wneir er mwyn cynnal cofnodion aelodau.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i'r swyddog, a ymatebodd yn briodol. Roedd trafodaethau'n ymwneud ag effaith y newidiadau i bensiynau ar y gronfa, sy'n rhoi mwy o ryddid i unigolion reoli eu pensiynau a'r effaith ar adnoddau o ganlyniad i nifer y bobl sy'n gwneud cais am ffigurau ER/VR.

21 **AILSTRWYTHURO GWEINYDDIAETH Y PENSIWN.**

Cyflwynodd y Prif Reolwr Pensiynau adroddiad "er gwybodaeth" ynghylch cyllid ar gyfer ailstrwythuro'r Is-adran Bensiynau.

Amlinellodd yr adroddiad yr adolygiad blaenorol a gynhaliwyd yn 2009, dadansoddiad bwlch, ffigurau meincnodi a roddodd fanylion am Gronfeydd Pensiwn eraill Cymru a strwythur arfaethedig yr Is-adran Bensiynau.

Gwnaeth y bwrdd sylwadau ar ddadansoddiad llawn o gost a budd mewn perthynas â chydbwyso rheoliadau yn erbyn buddion aelodau.

22 **DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL. (I'W TRAFOD)**

Trafododd y bwrdd drefn cyfarfodydd yn y dyfodol a gofynnodd fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn chwarterol a chan ddilyn cyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn.

**PENDERFYNWYD:** -

1) Cynnal cyfarfod nesaf y bwrdd yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 20 Mawrth 2017;
2) Caiff cyfarfodydd y bwrdd yn y dyfodol eu cynnal yn chwarterol a chan ddilyn cyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn.

## 23 COFNODION PWYLLGOR Y GRONFA BENSIWN - 7 RHAGFYR 2016. (ER GWYBODAETH)

Dosbarthwyd cofnodion Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2016 "er gwybodaeth".

Gofynnodd y bwrdd i'r adroddiad Cyngor Proffesiynol yng nghofnod rhif 32 gael ei anfon ymlaen.

**PENDERFYNWYD** anfon yr adroddiad Cyngor Proffesiynol yng nghofnod rhif 32 ymlaen at aelodau'r bwrdd.

## 24 GWAHARDD Y CYHOEDD.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 25 Y DIWEDDARAF AM GRONFA CYMRU GYFAN.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad ‘er gwybodaeth’ a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r pwyllgor am gynnydd Cronfa Buddsoddi Cymru Gyfan.

Gwnaeth y pwyllgor sylw ynghylch yr amserlen bosibl i'r gronfa ddod i rym, amcangyfrif o'r costau a roddwyd gan y Llywodraeth Ganolog a chynnwys y llythyr a anfonwyd ar ran y Gweinidog dros Lywodraeth Leol.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.06 pm

**CADEIRYDD**